# Cofnodion cryno - Bwrdd Taliadau

Lleoliad:

**External Location**

Dyddiad: Dydd Iau, 15 Medi 2016

Amser: 09.00 - 17.00

# WRB(06)

## Yn bresennol

| Categori | Enwau |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | Rt Hon Dame Dawn Primarolo (Cadeirydd)<br>Trevor Reaney<br>Michael Redhouse<br>Dame Jane Roberts |
| Tystion: | Adrian Crompton, Cyfarwyddwr Busnes y Cynulliad<br>Anna Daniel, Pennaeth Trawsnewid Strategol<br>Carys Evans, Pennaeth Cyswllt a Datblygiad Proffesiynol yr Aelodau<br>Rebecca Hardwicke, Members' HR Business Partner<br>Roger Dobson, Facilitator<br>Ben Shimshon, Britain Thinks |
| Staff y Pwyllgor: | Daniel Collier (Dirprwy Glerc) |

## 1 Eitem i'w benderfynu: Diogelwch Aelodau'r Cynulliad a'u staff

1.1 Trafododd y Bwrdd bapur a oedd yn amlinellu adolygiad o ddarpariaeth diogelwch ym mhob swyddfa etholaethol/rhanbarthol, a oedd yn cael ei gynnal gan Uned Heddlu'r Cynulliad a thîm Diogelwch Comisiwn y Cynulliad. Cynhaliwyd yr adolygiad mewn ymateb i gyngor gan Uned Gwrthderfysgaeth Cymru, ac yn unol â gweithgarwch tebyg yn Lloegr.

1.2 Trafododd y Bwrdd y cymorth ariannol ar gyfer darpariaethau diogelwch sydd ar gael ar hyn o bryd a thynnwyd sylw at nifer o gamau y gellid eu cymryd i wella diogelwch ar gyfer yr Aelodau a'u staff pan nad ydynt ar ystâd y Cynulliad, yn sgil penderfyniad Comisiwn y Cynulliad i adolygu'r trefniadau diogelwch yn swyddfeydd yr Aelodau.

1.3 Cytunodd y Bwrdd fod diogelwch yr Aelodau yn flaenoriaeth uchel ac y dylid mynd i'r afael ag unrhyw faterion sydd o fewn cylch gwaith y Bwrdd fel mater o flaenoriaeth. Pwysleisiodd y Bwrdd, yn dilyn marwolaeth drasig Jo Cox AS, fod mwy o frys i adolygu'r mesurau diogelwch presennol.

1.4 Cytunodd y Bwrdd y byddai angen iddo sicrhau bod adnoddau effeithiol ar gael er mwyn darparu mesurau ar gyfer helpu i ddiogelu'r Aelodau.

1.5 Cytunodd y Bwrdd i ddileu'r gofyniad presennol, sef fod y £500 cyntaf ar gyfer costau diogelwch sy'n gysylltiedig â'r swyddfa yn cael ei dalu drwy Gostau Swyddfa'r Aelod unigol. Cytunodd y Bwrdd i greu cronfa wedi'i neilltuo a fyddai'n darparu gwelliannau diogelwch angenrheidiol a rhesymol ar gyfer Aelodau'r Cynulliad yn eu swyddfeydd, eu llety preswyl a'u cartrefi.

1.6 Nododd y Bwrdd fod yr adolygiad diogelwch a gynhaliwyd gan swyddogion cymwysedig yn nodi gwelliannau sy'n 'rhaid' digwydd, a 'ddylai' ddigwydd ac y 'gallent' ddigwydd. Bydd yr holl ychwanegiadau y mae'n 'rhaid' iddynt ddigwydd ac y 'dylent' ddigwydd yn cael eu hariannu gan Gomisiwn y Cynulliad. Fodd bynnag, cytunodd y Bwrdd y byddai'r gwelliannau hynny y 'gallent' ddigwydd yn amodol ar achos busnes gan Aelodau'r Cynulliad.

## 2 Eitem i'w benderfynu: Trafod yr ymatebion i'r ymgynghoriad ar dâl Cadeiryddion y Pwyllgorau

2.1 Trafododd y Bwrdd ymatebion i'w ymgynghoriad ar dâl Cadeiryddion y Pwyllgorau drwy e-bost yn dilyn cyfarfod ffurfiol y Bwrdd. Cytunodd y Bwrdd y dylid cynnal y lefelau cyflog ar gyfer Cadeiryddion y Pwyllgorau.

2.2 Nododd y Bwrdd y byddai cyfrifoldebau'r Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol newydd mor arwyddocaol â rhai y Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth eraill. Felly, cytunodd y Bwrdd y dylai cadeirydd y Pwyllgor hwn dderbyn y cyflog uchaf o'r ddau gyflog ychwanegol.

2.3 Fel sy'n wir am gyflogau'r Aelodau a phob Deiliad Swydd, cytunodd y Bwrdd y byddai cyflogau ychwanegol i gadeiryddion y pwyllgorau yn cael eu haddasu ym mis Ebrill bob blwyddyn yn ôl y newid yn y Canolrif Enillion ASHE yng Nghymru, rhwng mis Mawrth a mis Mawrth y flwyddyn flaenorol .

2.4 Cytunodd y Bwrdd y byddai cyflog Cadeiryddion y Pwyllgorau newydd yn cael ei ôl-ddyddio o'r dyddiad y cawsant eu hethol i'w rolau.

## 3 Ein Strategaeth

3.1 Cynhaliodd y Bwrdd ddiwrnod strategaeth i flaenoriaethu meysydd gwaith ar gyfer gweddill mandad y Bwrdd ac i baratoi ar gyfer y Chweched Cynulliad.

3.2 Hwyluswyd y diwrnod strategaeth gan Roger Dobson, arbenigwr mewn Adnoddau Dynol, a Ben Shimshon o Britain Thinks.

3.3 Mewn trafodaeth, ystyriodd y Bwrdd ei nodau strategol a datblygodd gyfres uchelgeisiol o flaenoriaethau sy'n canolbwyntio ar ymgynghori, ymgysylltu a chasglu tystiolaeth.

3.4 Cytunodd y Bwrdd i ddatblygu dogfen strategaeth sy'n nodi ei egwyddorion, ei flaenoriaethau a'i amcanion ar gyfer y Pumed Cynulliad, gan ganolbwyntio ar greu Penderfyniad sy'n addas ar gyfer y Chweched Cynulliad.

## 4 Ymweliadau â swyddfeydd etholaethol Aelodau'r Cynulliad yng ngogledd Cymru

Dydd Gwener 16 Medi 2016:

4.1 Ymwelodd y Bwrdd â detholiad o Aelodau'r Cynulliad yng ngogledd Cymru i gael dealltwriaeth well o'r heriau a wynebir gan yr Aelodau yn eu swyddfeydd etholaethol, y gwaith a wneir gan y staff cymorth, ac i gael trafodaeth gyffredinol er mwyn darparu'r bwrdd gyda mwy o wybodaeth gyd-destunol.

4.2 Byddai'r Bwrdd yn defnyddio'r dystiolaeth hon i lywio ei strategaeth yn ystod y Pumed Cynulliad.